

Clwb Allforio Bwyd a Diod Cymru



Pam Allforio?

Gall allforio weddnewid eich busnes, ac mae buddion potensial yn cynnwys gwerthiant ac elw cynyddol, yn ogystal ag annog creadigrwydd ac arloesedd, a chynyddu effeithiolrwydd.

Yn 2014, allforiodd Cymru werth £302 miliwn o fwyd a diod, ac roedd ychydig dros 90% o'r allforion hynny yn ei hanelu hi am wledydd yr UE. Mae cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru yn cynnig cynnyrch or ansawdd uchel i'r byd, gyda tharddiad cryf a hanes i'w adrodd am o ble y daw eu bwyd.

Ond, fe all cychwyn ar eich taith allforio deimlo'n brofiad go heriol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu Clwb Allforio newydd Bwyd a Diod Cymru sy'n dod â phobl o'r un bryd ac anian ynghyd i helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau i allforio.

Clwb Allforio Bwyd a Diod Cymru

Bydd y Clwb yn helpu allforwyr newydd neu gynnar i ddatblygu'u galluoedd a'u potensial i allforio drwy ystod o weithgareddau, yn cynnwys:

- Cyfarwyddiadau i'r wlad ac i'r sector ar gyfer dewis marchnadoedd
- Gweithdai ar Sgiliau Allforio
- Rhwydweithio â chymheiriaid ac arbenigwyr technegol
- Cael mynediad at gyngor arbenigol mewn meysydd megis cyllid, contractau rhyngwladol, eiddo deallusol, logisteg, morgludiant a chadw dogfennau
- Cydweithredau ag aelodau eraill o'r clwb ynglŷn â chyfleoedd er budd y naill a'r lall
- Dysgu oddi wrth allforwyr mwy profiadol
- Cael mynediad at ystod ehangach o raglenni sy'n cefnogi allforio.

A yw'r Clwb Allforio ar eich cyfer chi?

A oes gennych uchelgais glir i dyfu drwy allforio?

A ydych eisoes yn cyflenwi i gyfrifion yn y Deyrnas Unedig?

A oes gennych gapasiti cynhyrchu i gyflawni archebion allforio?

A ydych yn brin o brofiad o allforio?

Os gallwch ateb oes i'r cwestiynau hyn, yna gall Clwb Allforio Bwyd a Diod Cymru eich helpu ar eich taith i drosi'ch uchelgais i allforio i fod yn realiti.

Beth am allforwyr profiadol?

Tra bod y clwb hwn wedi'i anelu at allforwyr newydd neu gynnar, croesawn ddatganiadau o diddordeb oddi wrth allforwyr bwyd a diod llwyddiannus sy'n fodlon rhannu'u profiadau a helpu i lunio datblygiad y clwb er budd yr holl aelodau.

Darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag allforio

Os yw'ch sefydliad yn darparu arbenigedd, cyngor new wasanaethau sy'n helpu cwmnïau i allforio, byddem yn hoffi clywed gennych chithau hefyd.

I fynegu diddordeb mewn ymuno â'r clwb, anfonwch e-bost at Bwyd-Food@gov.wales, os gwelwch yn dda. Dylai cynhyrchwyr bwyd a diod gynnwys crynodeb byr o'ch profiad o allforio hyd yn hyn. Dylai sefydliadau eraill gynnwys y mathau o wasanaethau y maent yn eu cynnig fydd yn helpu busnesau bwyd a diod i allforio'u cynnyrch.

Os ydych chi'n meddwl y gallai'r cymorth hwn fod o fudd i chi, cysylltwch â:

Ffôn: 0300 060 3000

Ebost: Bwyd-Food@gov.wales

llyw.cymru/bwydadiodcymru

 @BwydaDiodCymru